



# Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ar 6 Ebrill 2016.

**Pwrpas y gyfraith hon yw gwella  
llesiant pobl Cymru, yn enwedig  
pobl sydd angen gofal a chymorth, a  
gofalwyr sydd angen cymorth.**

## **Mae'r Ddeddf yn esbonio mai llesiant yw:**

- Gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod am eich hawliau ac yn deall beth maent yn ei olygu i chi
- Bod yn iach
- Cael eich diogelu rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod
- Mynediad at addysg, hyfforddiant, cyflogaeth, chwaraeon a hamdden
- Perthynas gadarnhaol gyda theulu a ffrindiau
- Bod yn rhan o'r gymuned
- Cael bywyd cymdeithasol
- Cael cartref saff a diogel

Mae'r Ddeddf yn cynnwys nifer o hawliau y mae'n bwysig i chi wybod amdanynt a'u deall. Mae'r hawliau hyn yr un fath i bob gofalwr – yn blentyn, yn berson ifanc neu'n oedolyn. Mae esboniad o'r hawliau hyn ar y tudalennau nesaf.

## Yr hawl i lesiant

Mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol, eich bwrdd iechyd lleol a Gweinidogion Cymru hybu llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, **a gofalwyr sydd angen cymorth.**



## Yr hawl i wybodaeth, help a chyngor

Mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth, help a chyngor am wasanaethau er mwyn i chi allu dod o hyd iddyn nhw a'u defnyddio.

# Yr hawl i asesiad os na ellir bodloni eich anghenion drwy wybodaeth a chyngor



Mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol gynnal asesiad o anghenion **gofalwyr** a **allai** fod angen cymorth.

Mae'r asesiad hwn yn ffordd o ganfod pa help sydd ei angen arnoch.

Nid yw'r swm o arian sydd gennych yn effeithio ar eich hawl i gael asesiad, ond efallai y gofynnir i chi gyfrannu at gost eich cymorth.

# Yr hawl i gael eich clywed a chael rheolaeth dros benderfyniadau am eich cymorth



Yn ystod eich asesiad, mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol ofyn i chi **beth sy'n bwysig i chi** fel gofalwr, neu ofalwr ifanc. Bydd hyn yn cynnwys trafod a fydd eich gofal yn cael ei drefnu gan yr awdurdod lleol neu gennych **chi** gan ddefnyddio taliad uniongyrchol.

Rhaid i chi gael eich cynnwys ym mhob penderfyniad am eich cymorth. Os hoffwch chi, cewch ofyn i ffrind neu aelod o'r teulu fod gyda chi i'ch helpu.

Efallai y bydd rhai awdurdodau lleol yn cyfuno'r asesiad o anghenion gofalwr gydag asesiad ar gyfer y person yr ydych yn gofalu amdano. Dim ond gyda'ch caniatâd chi y maen nhw'n cael gwneud hyn.

# Yr hawl i gael eiriolwr

Os nad ydych chi'ch hun yn gallu cymryd rhan lawn yn y trafodaethau, bydd eiriolwr yn gallu helpu i wneud yn siŵr bod eich barn yn cael ei chlywed pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am eich gofal a'ch cymorth.

Rhaid i eiriolwr **annibynnol** gael ei drefnu os nad ydych yn gallu siarad drosoch eich hun neu os nad oes gennych neb i'ch helpu i fynegi eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau.



# Llinellau Gwybodaeth, Help a Chyngor Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol



**Canolfan Gofalwyr Abertawe:**  
01792 653344

**Cyngor Sir Benfro:**  
01437 764551

**Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Blaenau Gwent:**  
01495 315700

**Cyngor Bro Morgannwg:**  
01446 700111

**Cyngor Sir Caerdydd:**  
029 2087 2087

**Cyngor Sir Gaerfyrddin –  
Llesiant Delta:**  
0300 33 2222 (24 awr)

**Cyngor Bwrdeistref  
Sirol Caerffili:**  
0808 100 2500

**Cyngor Sir Casnewydd:**  
01633 656656

**Cyngor Castell-nedd  
Port Talbot:**  
01639 686802

**Cyngor Sir Ceredigion:**  
01545 574000

**Cyngor Bwrdeistref  
Sirol Conwy:**  
0300 456 1111

**Cyngor Sir Ddinbych:**  
0300 456 1000

**Cyngor Sir y Fflint:**  
03000 858858

**Cyngor Gwynedd:**

- Ardal Llŷn: 01758 704099
- Ardal Caernarfon: 01286 679099
- Ardal Bangor: 01248 363240
- Eifionydd a Gogledd Meirionnydd: 01766 510300
- De Meirionnydd: 01341 424572

**Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Merthyr Tudful:**  
01685 725000

**Cyngor Sir Fynwy:**  
01633 644644

**Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Pen-y-bont ar Ogwr:**  
01656 642279

**Cyngor Sir Powys:**  
0345 602 7050

**Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Rhondda Cynon Taf:**  
01443 425003

**Cyngor Bwrdeistref  
Sirfol Torfaen:**  
01495 762200

**Cyngor Bwrdeistref  
Sirol Wrecsam:**  
01978 292066

**Cyngor Sir Ynys Môn:**  
01248 752752

## Manylion cyswllt defnyddiol eraill

**Gofalwyr Cymru:** Yn rhoi cyngor a gwybodaeth o ansawdd i ofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi.  
Llinell gyngor – Dydd Llun i Ddydd Gwener: 0808 808 7777  
[www.carersuk.org/wales](http://www.carersuk.org/wales)

**Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru:** Wedi ymrwymo i wella'r cymorth a'r gwasanaethau i ofalwyr di-dâl.  
0300 772 9702 [wales@carers.org](mailto:wales@carers.org)  
<https://carers.org/around-the-uk-our-work-in-wales/our-work-in-wales-welsh>

**Fforwm Cymru Gyfan:** Yn rhoi llais cenedlaethol i rymuso rhieni a gofalwyr pobl ag anableddau dysgu.  
029 2081 1120 [admin@allwalesforum.org.uk](mailto:admin@allwalesforum.org.uk)  
[www.allwalesforum.org.uk](http://www.allwalesforum.org.uk)

**Comisiynydd Plant Cymru:** Yn amddiffyn ac yn hyrwyddo hawliau plant Cymru.  
01792 765600 [post@complantcymru.org.uk](mailto:post@complantcymru.org.uk)  
[www.complantcymru.org.uk](http://www.complantcymru.org.uk)

**Age Cymru:** Gwybodaeth a chyngor ar faterion sy'n effeithio ar bobl dros 50 oed yng Nghymru.  
0300 303 4498 [advice@agecymru.org.uk](mailto:advice@agecymru.org.uk) [www.ageuk.org.uk/cymru/](http://www.ageuk.org.uk/cymru/)

**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:**  
Yn diogelu ac yn hyrwyddo hawliau pobl hŷn yng Nghymru.  
03442 640670 / 02920 445030 [gofyn@olderpeoplewales.com](mailto:gofyn@olderpeoplewales.com)  
[www.olderpeoplewales.com/en/home.aspx](http://www.olderpeoplewales.com/en/home.aspx)